Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor

These Minutes are subject to approval at the next appropriate meeting of the Panel

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

# Amlosgfa Llwydcoed

Cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful brynhawn Mawrth 23 Mehefin 2019 am 2.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau o Gyd-bwyllgor Amlosgfa Llwydcoed yn bresennol:-**

Y Cynghorydd D Isaac (Cadeirydd)

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Y Cynghorydd M Colbran   Y Cynghorydd J Thomas

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Y Cynghorydd G Jones   Y Cynghorydd A Crimmings

**Swyddogion yn bresennol**

Ms L Coughlan, Cyfreithiwr
Ms J Lewis, Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau
Mr S Preddy, Cyfrifydd Grŵp
Ms H Williams, Swyddfa Archwilio Cymru
Mr C Pritchard, Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent/Goruchwyliwr yr Amlosgfa

## 9 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H. Boggis, A. Fox (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Chaplin (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful).

## 10 DATGAN BUDDIANT

**PENDERFYNWYD -** Yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud yn y cyfarfod ynglŷn â'r agenda:

1. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones
- "Rydw i'n aelod o'r Côr Meibion Lleol".

## 11 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 28 Mai 2019 yn rhai cywir.

## 12 ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

12.1 Rhaglen Waith Gyfalaf

Rhoddodd Reolwr y Gwasanaethau Profedigaethau ddiweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r Rhaglen Waith Gyfalaf, sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Aelodau.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r rhaglen waith gyfalaf sydd wedi'i chymeradwyo.

12.2 Gwasanaeth Carolau Nadolig Llwydcoed

Cafodd yr Aelodau wybod fod Gwasanaeth Carolau Nadolig Amlosgfa Llwydcoed wedi'i drefnu ar gyfer dydd Sadwrn 7 Rhagfyr 2019, am 12pm, a bod gwahoddiad i'r Aelodau a'u teuluoedd.

Gofynnodd un Aelod a fyddai modd gwahodd y Côr Meibion Lleol i ganu yng Ngwasanaeth Carolau Nadolig Llwydcoed yn 2020. Nodwyd y byddai gwahoddiad ffurfiol yn cael ei anfon at y Cor Meibion lleol yn gofyn iddyn nhw berfformio yn y Gwasanaeth y flwyddyn nesaf.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r wybodaeth.

12.3 Cynlluniau Parcio Ceir a Phlannu ar gyfer y Dyfodol

Gofynodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau i'r Aelodau ystyried y cynnig mewn perthynas â chynlluniau parcio ceir a phlannu ac, os caiff y cynlluniau eu cymeradwyo, yna bydd modd ymchwilio i'w costau.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** y byddai angen chwilio am eglurhâd ar gostau'r cynllun.

12.4 Sgriniau Wesley Media

Cafodd yr Aelodau wybod bod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng y Swyddogion a Westley Media er mwyn trafod pryderon yr Aelodau

ynglŷn â sgriniau Wesley Media. Bydd Wesley Media yn darparu cynllun gwella ar gyfer pob rhan o'r system ac yn nodi costau'r gwaith maes o law.

Yn dilyn trafod, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r adroddiad.

12.5 Hysbysfyrddau'r Amlosgfa

Mewn perthynas â'r pryderon a godwyd ynghylch diffyg hysbysfyrddau, cafodd yr Aelodau wybod fod dau hysbysfwrdd arall wedi'u prynu a'u lleoli mewn ardaloedd priodol ar dir yr Amlosgfa.

12.6 Darparu Ystafell Gyfarfod yn Amlosgfa Llwydcoed

Clywodd yr Aelodau bod adran Eiddo'r Cyngor wedi ymrwymo i greu ystafell gyfarfod yn Amlosgfa Llwydcoed, gyda'r gwaith yn cychwyn ganol mis Medi 2019. Yn dilyn y gwaith, bydd modd cynnal cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn Amlosgfa Llwydcoed yn y dyfodol.

12.7 Ystadegau a Chyflawniad

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ystadegau a'r ffigurau cyflawniad sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlosgfa ers y cyfarfod diwethaf.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn y taflenni.

**13 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Cyflwynodd Cyfrifydd Cyfadran y Cydbwyllgor y Datganiad Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn sy'n Gorffen ar 31 Mawrth 2019, yn ogystal â'r diweddariad am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2019/20.

Adroddwyd na nodwyd unrhyw welliannau perthnasol yn rhan o'r broses adolygu ar gyfer y Datganiad Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31$^{st}$ Mawrth 2019.

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau mewn perthynas â'r Adroddiad Monitro Cyllideb, sy'n darparu cymhariaeth o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol a rhagamcanol yn erbyn y gyllideb gymeradwy ar gyfer tri mis cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20. Cafodd eglurhad ei ddarparu mewn perthynas â'r prif amrywiant yn y gwariant.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn sy'n Gorffen ar 31 Mawrth 2019;
2. Cymeradwyo a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2019/20.

**D. ISAAC**
**Cadeirydd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.25pm**